British Nuclear Group

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd

Pecyn Briffio ar gyfer Prosiect Cyflwr Terfynol y Safle

1 Cyflwyniad 3
2 Cynnwys 3
3 Rhychwant Prosiect Cyflwr Terfynol a Phwynt Terfyn y Safle 3
4 Golwg Gyffredinol ar Safle Datgomisiynu Trawsfynydd 4
5 Dyfyniadau o Strategaeth yr NDA (Mawrth 2006) 5
5.1 Strategaeth Ddatgomisiynu 5
5.1.1 Y Cyd-destun 5
5.1.2 Y Sefyllfa 5
5.1.3 Agwedd yr NDA 5
5.2 Tir Halogedig 6
5.2.1 Y Cyd-destun 6
5.2.2 Y Sefyllfa 6
5.2.3 Agwedd yr NDA 7
6 Diffiniad Cyfredol Cyflwr Terfynol Trawsfynydd 7
7 Cyfyngiadau Hysbys Cyfredol yn Nhrawsfynydd 8
8 Briff gan Gyngor Gwynedd 9
8.1 Strategaeth Gymunedol Gwynedd: Gwynedd ar y Cyd 10
8.2 Fframwaith Adfywio Gwynedd 10
9 Briff gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 11
9.1 Polisi Cynllunio Cyfredol 11
9.2 Caniatâd Cynllunio 11
9.3 Ymrwymiad i gyflwyno polisïau newydd 12
9.4 Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri 12
9.5 Y Cynllun Datblygu Lleol 12
10 Rhaglen Amlinellol ar gyfer y Prosiect 13

1 Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2005, ysgrifennodd yr NDA (yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear) at bob Grŵp Rhanddeiliaid Safle'n gofyn iddynt drafod Cyflwr Terfynol a Phwynt Terfyn y Safle er mwyn penderfynu pa broses i'w mabwysiadu wrth ymgynghori â'r sefydliadau sydd yn aelodau cyn gwneud yr argymhelliad yn Rhagfyr 2006. Lluniwyd Nodyn Canllaw i roi sail i Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd gasglu sylwadau'r gymuned leol ynghyd, a gwneud argymhelliad i'r NDA ar gyfer y cyflwr terfynol a'r pwynt terfyn i'r safle dan sylw.

Ar sail y Nodyn Canllaw, datblygwyd proses ar gyfer Safle Trawsfynydd, ac mae'r pecyn briffio hwn yn casglu ynghyd bob gwybodaeth y credir ei bod yn angenrheidiol i alluogi'r ymgynghoriad i fynd yn ei flaen.

Mae gan bob un o 20 safle'r NDA ar hyn o bryd gyflwr terfynol mewn golwg at ddibenion cynllunio a phennu costau. Fodd bynnag, nid yw'r rhain o reidrwydd yn manteisio ar yr agwedd fwy hyblyg sydd ar gael yn sgîl adolygiad diweddar y Llywodraeth o'i pholisi datgomisiynu, lle dywedir na ddisgwylir o reidrwydd i safleoedd gael eu hadfer i statws tir glas. Fel y dywedwyd yn Strategaeth ddrafft yr NDA, mae'n amlwg y bydd gan randdeiliaid lleol farn am gyflwr terfynol a phwynt terfyn safle.

2 Cynnwys

Mae'r pecyn briffio hwn yn cynnwys dyfyniadau perthnasol o Strategaeth yr NDA a gyhoeddwyd ym Mawrth 2006 a chyfraniadau gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Strategaeth Gymdeithasol, Gymunedol ac Economaidd ar gyfer yr ardal, a chan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn perthynas â'r Strategaeth Gynllunio ac Amgylcheddol ar gyfer yr ardal gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau a thybiaethau perthnasol.

3 Rhychwant Prosiect Cyflwr Terfynol a Phwynt Terfyn y Safle

I ddibenion y nodyn hwn defnyddir y diffiniadau canlynol:

- 'Cyflwr terfynol' safle yw'r cyflwr ffisegol ar y pwynt pan fydd yr NDA wedi gorffen ei fusnes.
- 'Pwynt terfyn' safle yw'r adeg y cyrhaeddir y 'cyflwr terfynol' hwn.

- Y safle yw'r tir sy'n eiddo i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) i'r gogledd o Lyn Trawsfynydd ac i'r gorllewin o'r A470, gan gynnwys ardal y Safle Niwclear Trwyddedig. Mae'r is-orsafoedd sydd wedi'u lesio i Gwmni'r Grid Cenedlaethol ac i Scottish Power (Manweb) wedi'u gadael allan yn benodol.

Mae amrediad o gyflyrau terfynol posibl i safle:

- Ar un pen i'r amrediad mae safle maes glas cysefin lle nad oes dim gwastraff radiolegol na pheryglus na dim tir halogedig, ac y gellir ei ryddhau ar gyfer ailddefnydd digyfyngiad.
- Ar ben arall yr amrediad mae safle lle mae cymaint o dir halogedig nes bod angen iddo aros dan reolaeth sefydliadol am y dyfodol rhagweladwy, gan fonitro a rheoli halogiad y tir yn y fan a'r lle er mwyn gwarchod yr amgylchedd, a chan gyfyngu mynediad er mwyn gwarchod y cyhoedd.
- Rhwng y ddau begwn hyn mae amrediad o gyflyrau terfynol posibl ar gyfer ailddefnydd diwydiannol neu fasnachol cyfyngedig fel Parc Gwyddoniaeth neu waith cynhyrchu trydan newydd.

Rhaid i'r cyflwr terfynol a ddewisir ar gyfer pob safle fod yn gyson â'r polisi cenedlaethol a lleol ynghylch ailddefnyddio safleoedd. Gallai hyn olygu y byddai raid i gyflwr terfynol safle penodol newid yn y dyfodol yn unol â pholisi diwygiedig.

I gyrraedd y cyflwr terfynol y cytunwyd arno ar gyfer safle penodol:

- rhaid i bob gwastraff radiolegol lefel isel a lefel ganolig gael ei gyflyru a naill ai ei waredu neu ei symud o'r safle i leoliad arall i aros ei waredu.
- rhaid i bob gwastraff arall gael ei symud o'r safle a rhaid adfer y tir i gyflwr sy'n gyson â'r cyflwr terfynol y cytunwyd arno.

4 Golwg Gyffredinol ar Safle Datgomisiynu Trawsfynydd

Saif Atomfa Trawsfynydd yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd ac mae ganddi arwynebedd o 15 hectar o fewn y drwydded safle niwclear. Dechreuodd gynhyrchu trydan ym 1965 a daeth y cynhyrchu i ben ym 1991. Mae Safle Niwclear Trwyddedig Trawsfynydd wedi'i drwyddedu i Magnox Electric Ltd. Mae'r safle o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac yn agos at sawl Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) ac Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA). Mae gan yr NDA bwerau dynodedig hefyd i reoli a gweithredu gorsaf bŵer trydan dŵr Maentwrog, a agorwyd ym 1928 ac sy'n agos at y safle.

Y cynlluniau ar hyn o bryd yw dad-drwyddedu'r safle i'w ailddefnyddio at ddibenion hamdden yn y dyfodol fel sy'n gweddu i'w leoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

2007	Cwblhau storfa gwastraff lefel ganolraddol (ILW) ar gyfer storio gwastraff wedi'i brosesu
2011	Chwalu'r gymhlethfa llynnoedd
2012	Dechrau cyfnod gofal a chynnal a chadw
2040	Pecynnu ILW a'i gludo i gadwrfa
2046	Dymchwel y storfa wastraff yn unol â chaniatadau cynllunio lleol a chanfyddiadau ymchwiliad cyhoeddus
2088	Dechrau clirio'r safle'n derfynol
2096	Clirio'r safle'n derfynol a'i gau

5 Dyfyniadau o Strategaeth yr NDA (Mawrth 2006)

5.1 Strategaeth Ddatgomisiynu

5.1.1 Y Cyd-destun

Cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r polisi datgomisiynu yn 2004, tybiwyd y gallai'r rhan fwyaf o safleoedd gael eu rhyddhau yn y diwedd ar gyfer defnydd digyfyngiad. Fodd bynnag, awgrymodd yr adolygiad y gellid cael sawl gwahanol gyflwr terfynol, yn amrywio o reolaeth sefydliadol amhenodol (cadw'r safle o fewn y drefn drwyddedu niwclear) i ddefnydd digyfyngiad.

5.1.2 Y Sefyllfa

Ar gyfer pob safle, mae cyflwr terfynol wedi'i gytuno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, efallai na fydd y rhain yn adlewyrchu'r trefniadau mwy hyblyg sydd bellach ar gael – a allai roi cyfleoedd i leihau costau neu sicrhau manteision eraill.

5.1.3 Agwedd yr NDA

Mae adolygiad pellach o gyflyrau terfynol safleoedd a'u dyddiadau terfynu'n cael ei wneud yn 2006 drwy ymarferiad ymgynghori fydd yn cynnwys Grwpiau Rhanddeiliaid y Safleoedd, y rheoleiddwyr, Cwmnïau Trwyddedau Safleoedd a rhanddeiliaid eraill. Mae manteision o wneud hyn, gan gynnwys:

- sicrhau cyfeiriad a dyddiad terfyn clir ar gyfer datgomisiynu a gweithgareddau glanhau ar bob safle;
- mwy o sicrwydd ynghylch cerrig milltir a chyllidebau;
- y cyfle i sefydlu contractau gyda ffioedd cymhelliant ar gyfer cyflawni cerrig milltir cytunedig a'r cyflwr terfynol yn y diwedd;
- ffocws cliriach ar natur ac amseriad anghenion cefnogaeth a datblygiad cymdeithasol-economaidd; a
- gwell canlyniad a gwell gwerth am arian i'r trethdalwyr.

Ystyriaeth allweddol wrth bennu cyflwr terfynol safle fydd rheolaeth hirdymor unrhyw dir halogedig ymbelydrol neu anymbelydrol sy'n bresennol ar y safle. Lle bo'r cyflwr terfynol diwygiedig yn golygu gadael deunydd ymbelydrol neu anymbelydrol ar y safle, bydd angen i ni a'r rheoleiddwyr fod yn fodlon na fydd hyn yn cyflwyno risg annerbyniol i bobl na'r amgylchedd, nawr nac yn y dyfodol.

I ategu a hysbysu'r ymgynghoriad hwn ceir:

- gwybodaeth glir am statws cyfredol safleoedd a disgrifiadau hawdd eu deall o'r darpar gyflyrau terfynol sydd ar gael;
- y camau angenrheidiol i gyflawni cyflyrau terfynol;
- gwybodaeth am y graddfeydd amser tebygol ar gyfer cyflawni cyflyrau terfynol;
- y goblygiadau posibl i ddiogelwch, gwarchodaeth, yr amgylchedd a'r economi leol a chymdeithasol;
- yr angen i sicrhau cysondeb â gofynion statudol am adolygiadau diogelwch cyfnodol.

Ar gyfer rhai safleoedd, disgwyliwn i'r broses fod yn gymharol syml ac y gallwn ddod i gytundeb yn brydlon. Ar gyfer safleoedd mwy cymhleth, gallai'r broses gymryd mwy o amser ond disgwyliwn gwblhau'r ymarferiad mewn pryd i gofnodi'r canlyniadau yn ein Strategaeth nesaf. Byddai'r consensws a geisiwn yn cael ei gadarnhau mewn dogfen a fyddai ar gael i'r cyhoedd. Mewn rhai achosion efallai mai dim ond consensws ar gyflwr terfynol dros dro yn ystod yr adolygiad bwriedig y gellid ei gyrraedd, na fyddai'n cau opsiynau ar gyfer y cyflwr terfynol yn y diwedd, ond a fyddai serch hynny'n caniatáu bwrw ati'n ddi-rwystr gyda'r datgomisiynu a'r glanhau.

Rydym yn cydnabod, yn wyneb y graddfeydd amser maith a ddilynir i ddatgomisiynu rhai safleoedd, y bydd angen adolygu cyflyrau terfynol o bryd i'w gilydd i gadarnhau fod y dull a ddewiswyd yn dal yn ddilys yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd neu ddatblygiadau ym mholisi'r Llywodraeth neu'r fframwaith rheoleiddiol. Yn enwedig, bydd angen i adolygiadau'r dyfodol o gyflyrau terfynol ystyried y ddealltwriaeth gynyddol am unrhyw dir halogedig sydd ar gael ar y safle a'r bygythiadau posibl gan erydiad yr arfordir a newid hinsawdd.

5.2 Tir Halogedig

5.2.1 Y Cyd-destun

Ceir graddau amrywiol o halogiad radiolegol a chemegol ym mhob un o'n safleoedd sydd, mewn ambell achos, yn ymestyn y tu hwnt i ffin y safle. Mae gennym amcan o faint o dir sydd wedi'i halogi ar bob un o'n safleoedd ac rydym yn cael gwybodaeth ychwanegol i roi dealltwriaeth lawnach er mwyn gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Cwblhawyd astudiaethau helaeth o halogiad y tir ar Safle Trawsfynydd ac mae gennym ddealltwriaeth dda o faint o dir sydd wedi'i halogi a sut y caiff yr halogiad ei gludo. Yn y dyfodol bydd angen rhyw gymaint o waith ychwanegol mewn mannau nad oes modd mynd iddynt ar hyn o bryd. Mae'r risgiau radiolegol cysylltiedig â halogiad y tir wedi'u hasesu a daethom i'r casgliad nad yw'r halogiad ar hyn o bryd yn berygl uniongyrchol i'r gweithlu, i'r cyhoedd nac i'r amgylchedd. Yn ein barn ni ar hyn o bryd, ni fydd y tir halogedig yn peryglu'r cyhoedd ar unrhyw bryd yn y dyfodol ac felly nid oes angen unrhyw waith adfer. Fodd bynnag, mae'n rhaid dangos mai dyma'r Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau (DAYG) ac nad yw'n peryglu dad-drwyddedu'r safle yn y pen draw. [Er mwyn dad-drwyddedu'r safle rhaid dangos nad oes dim (sef yn ymarferol, llai nag 1: 1,000,000 risg o farwolaeth y flwyddyn) risg radiolegol gweddilliol]

5.2.2 Y Sefyllfa

Yn Sellafield, amcangyfrifwyd y gall fod cymaint ag 20 miliwn metr ciwbig o dir halogedig, a achoswyd yn bennaf gan ollyngiadau o gyfleusterau etifeddol a gwaredu. Mae gan Dounreay, Springfields a Harwell feintiau arwyddocaol o dir halogedig ymbelydrol neu anymbelydrol hefyd, er nad ar yr un raddfa â Sellafield. Mae lefelau is o halogiad ymbelydrol ac anymbelydrol yn bresennol ar Safleoedd Magnox er bod y rhain, mewn ambell achos, yn dal yn arwyddocaol. Yn Nhrawsfynydd, yr amcangyfrif gorau o gyfanswm cyfaint y tir halogedig yw 5,500 m^3, ac o hyn ystyrir bod oddeutu 500 m^3 yn

arwyddocaol. Mae'r tir halogedig yng nghyffiniau'r Llynnoedd ac mae oddeutu 4 m islaw lefel bresennol y ddaear.

Mae canfod faint o halogiad ymbelydrol ac anymbelydrol sydd a pha beryglon y gallai eu hachosi yn y dyfodol i'r gweithlu, i'r cyhoedd ac i'r amgylchedd yn broses gymhleth. Mae'n galw am waith technegol manwl i sefydlu natur a maint yr halogiad, ynghyd â pha mor debygol ydyw y gallai symud i leoliadau lle gallai effeithio ar bobl neu'r amgylchedd.

Ar rai safleoedd, fe gymer sawl blwyddyn i ddatblygu cynlluniau adfer priodol sy'n cynrychioli'r Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau (DAYG) ar gyfer rheoli tir halogedig yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i wneud ar Safle Trawsfynydd ac mae sawl astudiaeth eisoes wedi'u cwblhau. Bydd y drafodaeth gyfredol ynglŷn â'r cyflwr terfynol yn ffurfio rhan o'r broses o ystyried y DAYG ac yn cyfrannu at y strategaeth a fabwysiedir yn y pen draw ar gyfer rheoli halogiad tir radiolegol ar y Safle.

5.2.3 Agwedd yr NDA

Rydym yn gofyn i'n contractwyr ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch tir halogedig er mwyn inni allu deall mwy am ei helaethrwydd a'i natur a'r risg potensial i bobl a'r amgylchedd. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi mannau penodol lle mae angen mwy o waith pennu nodweddion neu waith adfer.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i weithio gyda'n contractwyr a'r rheoleiddwyr i gyflymu'r broses o bennu nodweddion tir halogedig. Wedyn byddwn yn sicrhau y datblygir cynlluniau rheoli cadarn, wedi'u costio'n llawn, ar gyfer tir halogedig, gan gynnwys creu a chynnal cofnodion priodol.

Bydd angen i'r broses o ddatblygu cynlluniau tymor hir ar gyfer rheoli tir halogedig fod yn seiliedig ar asesiad o sut y gallai tir halogedig effeithio ar bobl a'r amgylchedd. Caiff manteision ac anfanteision allweddol gwahanol ddulliau eu harfarnu er mwyn penderfynu ar y Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau.

6 Diffiniad Cyfredol Cyflwr Terfynol Trawsfynydd

Wedi diwedd y cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw, bwriedir symud i gam datgomisiynu terfynol y cylchred oes a gorffen dymchwel yr adeiladau sy'n weddill ar y safle. Wedi cwblhau'r cam hwn, caiff y safle ei glirio o bob adeilad sy'n weddill, ei dirweddu a'i ryddhau o'i drwydded fel ei fod ar gael at ddibenion hamdden yn y dyfodol i'r gymuned leol. Bydd cyfnod y cam hwn yn para o 2088 hyd 2098, sef cyfnod Clirio'r Safle'n Derfynol.

Tynnir pob adeilad i lawr a gwneud tyllau mewn unrhyw adeiladwaith sy'n weddill i helpu draeniad.

Wedi clirio pob adeiledd, gwneir arolygon ymbelydredd trwyadl ar y safle i gadarnhau nad oes dim ymbelydredd annerbyniol yn aros ar y safle nac oddi tano, ac y gellir dad-drwyddedu'r safle, gan ganiatáu iddo fod ar gael at ddibenion hamdden yn y dyfodol.

Unwaith y bydd hyn wedi'i gadarnhau, caiff y safle cyfan ei ailraddio a'i dirweddu.

Dyma'r pwynt (Gorffennaf 2098) pryd y bydd cylchred oes safle Trawsfynydd yn gyflawn.

7 Cyfyngiadau Hysbys Cyfredol yn Nhrawsfynydd

Nid oes dim cyfyngiadau arwyddocaol, er bod caniatâd cynllunio'n bodoli ar gyfer adeiladu Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol a gostwng uchder Adeiladau'r Adweithydd i greu Storfeydd Diogel.

Noder y canlynol:

- Mae'n ofynnol dymchwel y Storfa GLG o fewn 3 blynedd i'r adeg pan ddaw Cadwrfa Genedlaethol ar gael i dderbyn y pecynnau GLG sydd wedi'u storio.

- Mae rhai rhannau o'r safle wedi'u halogi (gweler uchod) fel bod gollyngiadau radiolegol hylifol ychydig yn uwch na'r cyffredin yn dod o'r safle.

- Mae llecyn ar ochr ogleddol y safle wedi'i ddefnyddio fel safle trwyddedig i waredu asbestos lle claddwyd symiau cyfyngedig o wastraff asbestos a gynhyrchwyd yn ystod y gwaith. [Rhoddwyd y gorau i'r claddu hwn ym 1990 ac ildiwyd y Drwydded]

- Mae rhan o'r safle wedi'i thrwyddedu dan ddarpariaethau Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (fel y'i diwygiwyd) gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae ffens balis wedi'i chodi o amgylch y safle a hysbysiadau wrth bob mynedfa'n hysbysu'r cyhoedd eu bod yn mynd i mewn i Safle Niwclear Trwyddedig. Y Safle Trwyddedig yw'r enw ar y fan hon. Mae pob gweithgaredd o fewn y Safle Trwyddedig yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Safleoedd Niwclear 1965 (fel y'i diwygiwyd) ac ar amodau'r Drwydded Safle Niwclear. Mae pob gweithgaredd a gwaith o fewn y Safle Trwyddedig yn destun rheoleiddio gan yr Arolygwyr Gosodiadau Niwclear (NII); mae hyn yn cynnwys rhai gweithgareddau y tu allan i'r Safle Trwyddedig a allai effeithio ar weithrediad y Safle. I ollwng unrhyw ddeunydd ymbelydrol (solid, hylif a nwy) o'r Safle Trwyddedig rhaid cael Awdurdodiad a roddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd dan ddarpariaethau Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993, a hynny dan reoleiddiad Asiantaeth yr Amgylchedd.

8 Briff gan Gyngor Gwynedd

Paratowyd yr isod gan Wasanaeth yr Economi ac Adfywio yng Nghyngor Gwynedd ar gais BNFL Masnachol i'w gynnwys ym Mhecyn Briffio Grŵp Rhanddeiliaid Trawsfynydd ar gyfer Prosiect Cyflwr Terfynol y Safle. Gofynnwyd i'r Cyngor baratoi amlinelliad byr o'r strategaeth gymdeithasol, gymunedol ac economaidd ar gyfer yr ardal:

Ers rhai blynyddoedd bu Gwynedd yn arloesol yn ei hymdrechion i hybu, hwyluso a chefnogi adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau lleol.

Mae Gwynedd yn glytwaith o gymunedau ac ardaloedd sydd wedi datblygu'u nodweddion unigryw a hynny'n bennaf yn sgîl gweithgaredd economaidd dros ganrifoedd lawer. Ceir ardaloedd gwledig ac amaethyddol mawr yn ogystal ag ardaloedd ôl-ddiwydiannol, fel dyffrynnoedd y llechi, a chymunedau glan môr sy'n ddibynnol ar dwristiaeth a'r diwydiant pysgota. Ceir ardaloedd trefol hefyd sy'n gweithredu fel canolfannau gweinyddiaeth a gwasanaeth yn ogystal â dinas Brifysgol sy'n gartref i ddatblygiadau technolegol arloesol yn ogystal â bod yn brif ganolfan siopau a gofal iechyd y sir.

Mae'r amrywiaeth yng nghymeriad Gwynedd, ei sylfeini cymunedol, ei hamgylchedd naturiol a'i thirweddau godidog, ynghyd â'r iaith Gymraeg, y diwylliant cynhenid a thraddodiad o gydweithredu rhwng cymunedau, ymysg cryfderau mwyaf y sir. Serch hynny, mae Gwynedd yn wynebu sawl her hefyd:

- sicrhau y caiff twf a ffyniant eu dosbarthu'n gyfartal
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a dieithrio cymdeithasol o fewn cymunedau a rhyngddynt
- ymateb i newid strwythurol yn sectorau economaidd traddodiadol Gwynedd
- datblygu gweithlu hyderus, medrus a hyblyg
- codi ansawdd cyflogaeth yng Ngwynedd a mynd i'r afael â'r diffyg yng nghyfartaledd incwm teuluoedd
- ymateb i batrymau demograffig newidiol, sef y cynnydd yn nifer y trigolion hŷn ac allfudo'r cenedlaethau iau, gyda mesurau i hyrwyddo cydbwysedd gwell rhwng oedrannau er mwyn cynnal hyfywdra cymunedau
- ymateb i ddirywiad yn amgylchedd ffisegol canol trefi a phentrefi a mynd i'r afael â phroblem adeiladau gwag/segur mewn cymunedau
- cwrdd â'r galw lleol am gartrefi, mynd i'r afael â'r niferoedd uchel o dai gwag yn y sir a sicrhau bod tai addas a fforddiadwy ar gael
- gwasanaethu cymunedau ymylol sydd ymhell oddi wrth ganolfannau gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon
- cadw a chynnal amgylchedd naturiol cyfoethog y sir
- cadw ac adeiladu ar gymeriad arbennig Gwynedd, gan fanteisio ar ddiwylliant unigryw'r sir a'r iaith Gymraeg

8.1 Strategaeth Gymunedol Gwynedd: Gwynedd ar y Cyd

Dogfen statudol yw *Gwynedd ar y Cyd* a ddatblygwyd gan bartneriaeth eang o gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol ynghyd â'r sector busnes a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Nod y strategaeth yw cydlynu gweithgaredd ar draws gwahanol gyrff ac mae pob polisi a strategaeth arall yn adlewyrchu ei chynnwys[1].

8.2 Fframwaith Adfywio Gwynedd

Mae Fframwaith Adfywio Gwynedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Nod rhan gyntaf y Fframwaith, *Strategaeth Adfywio Gwynedd*, yw datblygu ymagwedd gydlynol at adfywio cymunedol yng Ngwynedd. Cynigia'r Strategaeth fwy o integreiddio gweithgaredd ymysg cyrff sy'n bartneriaid ac mae'n argymell blaenoriaethu ymdrechion yn ddaearyddol, ar sail angen a chyfle, ac yn thematig, fel a ganlyn:

- Tai fforddiadwy
- Plant a phobl ifanc
- Sgiliau
- Dosbarthiad twf a ffyniant
- Mentergarwch
- Iaith a diwylliant
- Gwynedd mewn gwaith (lleihau anweithgaredd economaidd)

Bydd ail ran sefydlu Fframwaith Adfywio Gwynedd yn golygu datblygu wyth *Cynllun Adfywio Ardal*, fel modd o addasu'r blaenoriaethau thematig i anghenion cymunedau unigol a gweithio gyda chymunedau i nodi problemau arbennig ac ymatebion addas. Yn dilyn ymarferiad peilot, datblygir y *Cynlluniau Adfywio Ardal* dros gyfnod o ddeuddeg mis.

Rheolwr: Uned Rhaglenni Adfywio
240406

[1]Gw. Internet URL http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?cat=3512&doc=12826

9 Briff gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Awdurdod lleol un pwrpas yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gyda'r dibenion statudol canlynol:

- Gwarchod a chyfoethogi'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol; a

- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gael deall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Aiff y Ddeddf ymlaen i ddweud y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, wrth ddilyn dibenion y Parc Cenedlaethol, yn ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol ond heb wario'n sylweddol wrth wneud hynny, ac y bydd, i'r diben hwnnw, yn cydweithredu ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hyrwyddo datblygu economaidd a chymdeithasol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

Yn ogystal, dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol dros y cyfan o'r Parc Cenedlaethol.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am lunio Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ar geisiadau cynllunio.

9.1 Polisi Cynllunio Cyfredol

Cynllun Lleol Eryri, a fabwysiadwyd ym 1999, ochr yn ochr â Chynllun Fframwaith Gwynedd, yw'r cynllun datblygu mabwysiedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'n darparu set o ddatganiadau polisi cynllunio manwl sy'n sail i benderfyniadau ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio.

9.2 Caniatâd Cynllunio

Mae Caniatâd Cynllunio wedi'i roi, wedi i'r cais gael ei alw i mewn a'i ystyried mewn ymchwiliad lleol cyhoeddus, ar gyfer y Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol a dau adeilad storio diogel. Gan fod hwn yn gais mawr oedd yn codi materion o bwysigrwydd mwy na lleol, rhoddwyd y caniatâd gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Adran Masnach a Diwydiant, a hynny'n amodol ar i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gymeradwyo'r defnyddiau wedyn. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol rôl barhaus drwy gydol y datgomisiynu er mwyn sicrhau yr aiff y gwaith hwn yn ei flaen gyda pharch i'r amgylchedd, y gymuned a'r economi ac yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.

9.3 Ymrwymiad i gyflwyno polisïau newydd

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n gyfrifol am baratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ymgorffori prosesau paratoi'r ddau gynllun yn un er mwyn sicrhau agwedd gydlynol tuag at lunio polisi o fewn Eryri; bydd hyn yn cynnwys gweledigaeth gytûn ar gyfer dyfodol Eryri, gwell ansawdd cynllun a gwell deialog gyda sefydliadau a'r gymuned.

Mae'r Awdurdod yn rhagweld y cyhoeddir cynlluniau drafft yn hydref 2007, ac yn disgwyl cyhoeddi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi'i fabwysiadu yn gynnar yn 2008, ac wedyn, ar ôl archwiliad annibynnol, cyhoeddi Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn hydref 2009. Fel rhan o'r broses ar y cyd mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnwys trigolion, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol mewn deialog ystyrlon a fydd yn gwella'r modd y caiff polisïau eu llunio ac yn gwneud y broses yn gynt ac yn fwy ymatebol i newid. Fel rhan o'r gwaith hwn rhagwelir y byddwn yn gweithio gydag aelodau Grŵp Rhanddeiliaid yr NDA i sicrhau bod cynigion ar gyfer dyfodol y safle'n parchu cyd-destun y Parc Cenedlaethol a buddiannau economaidd a chymunedol.

9.4 Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen strategol gyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol – mae'n ganolog i ddyfodol y Parc.

Bydd y Cynllun yn edrych ar yr holl gwestiynau rheoli sy'n effeithio ar Eryri. Mae hyn yn golygu nid yn unig yr amgylchedd, ond hefyd bwysigrwydd ffordd o fyw, treftadaeth, diwylliant, traddodiadau lleol, a'r profiadau o ansawdd a grëir gan asedau naturiol yr ardal hon. Bydd yn ceisio rhoi golwg gyflawn ar reolaeth Eryri i'r dyfodol, golwg sydd yn amgylcheddol gyfrifol, yn economaidd ymarferol ac yn gymdeithasol deg.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhannu cyfrifoldeb am reoli'r Parc Cenedlaethol gyda nifer o gyrff eraill, gan gynnwys British Nuclear Fuels Ltd.

Rôl Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw dwyn ynghyd yr holl wahanol gyfrifoldebau, ceisio cytundebau ar sut i weithredu rhwng cyrff, busnesau a'r gymuned a sicrhau y gweithredir mewn modd sy'n gydnaws â dibenion y Parc Cenedlaethol. Am y rheswm hwn, mae angen cynnwys amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau yn y broses o baratoi a gweithredu'r cynllun rheoli.

9.5 Y Cynllun Datblygu Lleol

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn adeiladu ar bolisi cenedlaethol a rhanbarthol i ddarparu'r strategaeth ddatblygu a'r fframwaith polisi fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer anghenion datblygu a chadwraeth y Parc Cenedlaethol am gyfnod o bymtheng mlynedd, o 2008 hyd at y flwyddyn 2023. Bydd amryfal adroddiadau cefndir a data technegol eraill yn helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cynllun datblygu lleol.

10 Rhaglen Amlinellol ar gyfer y Prosiect

Dyma'r rhaglen sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

	Beth	Pwy	Pryd
1.	**Casglu mewnbwn ynghyd:**		**2006**
1.1	Cynllun Oes y Safle, tybiaethau a chaniatadau ynglŷn â'r cyflwr terfynol	British Nuclear Group	Mawrth-Ebrill
1.2	Strategaeth Amgylcheddol a Chynllunio gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau a thybiaethau perthnasol	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Mawrth-Ebrill
1.3	Strategaeth Gymdeithasol, Gymunedol ac Economaidd ar gyfer yr ardal	Cyngor Gwynedd	Mawrth-Ebrill
1.4	Agweddau rheoleiddiol	NII, AyrA, OCNS	Mawrth-Ebrill
2.	**Datblygu Opsiynau:**		
2.1	Llunio dogfen friffio briodol ar gyfer sefydliadau	Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid	Diwedd Ebrill
2.2	Cymeradwyo'r ddogfen friffio	Is-bwyllgor y Grŵp Rhanddeiliaid*	Diwedd Ebrill
2.3	Hwyluso datblygu opsiynau gan Gynghorau Cymuned a Thref; cyrff eraill sydd ag aelodau ar y Grŵp Rhanddeiliaid; Ysgolion a'r Coleg; cyrff cyhoeddus eraill. Defnyddio sesiynau ymwybyddiaeth, y prosiect cyflwr terfynol, a'r gweithdai terfynol a fynychir gan aelodau Is-bwyllgor y Grŵp Rhanddeiliaid i gael adborth gan grwpiau'n uniongyrchol.	Is-bwyllgor y Grŵp Rhanddeiliaid gyda chefnogaeth Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid	Mai-Gorffennaf
3.	**Asesu Opsiynau:**		
3.1	Casglu a chrynhoi'r opsiynau a gynigir gan y grwpiau cymunedol i ffurfio Adroddiad Asesu Opsiynau	Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid	Awst-canol Medi
3.2	Dadansoddiad SWOT o'r opsiynau yn erbyn y Cynllun Oes a Strategaethau lleol a datblygu amrediad o opsiynau credadwy ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus	Is-bwyllgor y Grŵp Rhanddeiliaid	Canol Medi
3.3	Paratoi deunydd arddangosfa ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus	Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid	Canol-diwedd Medi
4.	**Ymgynghori â'r Cyhoedd:**		
4.1	Rhannu'r opsiynau a rhoi cyfle i'r cyhoedd	Aelodau Is-bwyllgor	Hydref hyd

	Beth	Pwy	Pryd
	drafod a chynnig sylwadau ar yr opsiynau a gyflwynwyd – sioeau teithiol i drefi a phentrefi lleol ac arddangosfa led-barhaol yn y Ganolfan Ymwelwyr. Casglu'r adborth ar gardiau pleidleisio a roddir i bobl sy'n arwyddo i mewn i'r arddangosfa (dewis trefn yr opsiynau ac unrhyw sylwadau)	y Grŵp Rhanddeiliaid gyda chefnogaeth Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid	ddechrau Tachwedd
5.	**Datblygu'r Dewis Gorau**		
5.1	Adolygu'r adborth ac argymell dewis gorau	Is-bwyllgor y Grŵp Rhanddeiliaid	Diwedd Tachwedd
5.2	Cyflwyno'r broses, yr adborth, y canfyddiadau a'r dewis gorau i'r Grŵp Rhanddeiliaid llawn i'w cymeradwyo	Is-bwyllgor y Grŵp Rhanddeiliaid	Dechrau Rhagfyr
5.3	Gwneud argymhelliad i'r NDA	Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid ar ran y Grŵp Rhanddeiliaid	Rhagfyr